Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 10.12.2021

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# COVID-19: Adolygiad 21 diwrnod diweddaraf Llywodraeth Cymru

Mae canlyniadau yr adolygiad 21 diwrnod diweddaraf rheoliadau Coronafeirws wedi eu rhyddhau. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y bydd Cymru yn aros ar Lefel Rhybudd 0 gyda thri newid i'r rheoliadau:

- rhaid gwisgo gorchudd wyneb mewn theatrau, sinemâu neu neuaddau cyngerdd (ac eithrio pan yn bwyta neu'n yfed neu pan mewn caffi neu far sy'n rhan o'r safleoedd hynny)
- mae'n ofynnol gwisgo gorchudd wyneb mewn gwers yrru broffesiynol neu brawf ymarferol

- prawf o imiwnedd naturiol o'r fersiwn ddomestig o'r Pàs COVID wedi ei ddileu

Er mwyn lleihau'r don a ragwelir o heintiau newydd gan yr amrywiad Omicron, anogir pawb i:

- gael eu brechu neu i gael eu pigiad atgyfnerthu
- cymryd prawf llif unffordd (LFT) cyn cymysgu ac eraill
- gwisgo gorchuddion wyneb pan o gwmpas gan gynnwys mewn tafarndai a bwytai, pan nad yn bwyta nac yn yfed

Bydd y sefyllfa'n cael ei monitro'n agos a bydd Gweinidogion Llywodraeth Cymru yn cyfarfod yn rheolaidd i ystyried a oes angen unrhyw fesurau ychwanegol. I ddarllen y datganiad yn llawn, ewch i:

https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-adolygiad-o-reoliadau-diogelu-iechyd-cyfyngiadau-coronafeirws-rhif-5-12

# COVID-19: Brechu

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) yn cyflymu'n sylweddol y broses o gyflwyno eu rhaglen brechu. Cysylltir â phobl yn uniongyrchol yn eu tro i drefnu brechlyn atgyfnerthu. Gall dos cyntaf neu ail ddos o'r brechlyn gael ei archebu trwy ffonio 03000 840004.

Mae BIPBC yn galw ar gyflogwyr i ganiatáu i staff gymryd amser i ffwrdd i fynd i apwyntiadau brechu rhag COVID-19. Gall aildrefnu apwyntiadau i bobl nad ydynt yn gallu cymryd amser i ffwrdd o'r gwaith arafu eu hymdrechion yn sylweddol i amddiffyn pobl ac i wneud y defnydd gorau posibl o'u hadnoddau.

Am y diweddaraf, ewch i:

https://bipbc.gig.cymru/covid-19/brechlyn-covid-19/

Cadwch lygad ar https://twitter.com/betsicadwaladr a https://twitter.com/CyngorGwynedd am wybodaeth am glinigau brechu lleol.

# COVID-19: Profi

Mae profion llif unffordd ar gael i rai sydd heb symptomau coronafeirws a gallwch chi neu eich staff gasglu prawf am ddim o fferyllfeydd a llyfrgelloedd yng Ngwynedd. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Argyfwng/Coronafeirws/Prawf-Covid-19.aspx

Anogwch staff i gymryd profion LFT rheolaidd; ac i hunanynysu a chael profion os oes ganddyn nhw symptomau. Mae gwybodaeth ddefnyddiol am y defnydd o LFTs ar gael ar:

https://llyw.cymru/profion-llif-unffordd-covid-19-ar-gyfer-pobl-heb-symptomau

Mae gwybodaeth am drefnu prawf PCR COVID-19 i'r rhai efo symptomau coronafeirws ar:

https://bipbc.gig.cymru/covid-19/profi-covid-19/trefnwch-brawf-covid-19/

# COVID-19: Cyfrifoldebau Cyflogwyr – Gwybodaeth a Chanllawiau

Mae cynnal asesiad risg coronafeirws a gweithredu mesurau rhesymol i leihau'r risg o coronafeirws rhag lledaenu yn parhau i fod yn ofyniad cyfreithiol i fusnesau, cyflogwyr a threfnwyr digwyddiadau. Mae'r wybodaeth a chanllawiau diweddaraf ar gael yn:

https://llyw.cymru/eich-cyfrifoldebau-fel-cyflogwr-coronafeirws

Mae cardiau gweithredu mesurau rhesymol ar gyfer nifer o sectorau ar gael yn:

https://llyw.cymru/cardiau-gweithredu-mesurau-rhesymol-ar-gyfer-busnesau-sefydliadau-coronafeirws

# DIOGELWCH: Ymgyrch Sbeicio

Gofynnir i fusnesau lletygarwch arddangos poster i godi ymwybyddiaeth cwsmeriaid o beryglon sbeicio (pan roddir cyffuriau neu alcohol i bobl heb yn wybod iddynt). I lawrlwytho y poster, ewch i:

https://bit.ly/PosterYmgyrchSbeicioSpikedCampaign

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---